

PULESTON, (TEULU), Emral, Plas-ym-Mers, Hafod-y-wern, Llwynycnotiau, Caernarfon, etc.

(1) O drefgordd neu faenol Pilston neu Puleston ger Newport yn Sir Amwythig y cafodd y Pulestoniaid eu henw; yno y trigent yn ystod teyrnasiad Harri III, a pharhaent i ddal tiroedd yno hyd 1433 o leiaf. Credir mai Syr ROGER DE PULESTON (bu farw 1294) oedd y cyntaf i ymsefydlu yn Emral ym Maelor Saesneg; disgrifir ef fel ' de Embers-hall ' ym 1283, a chyfeirir at ' foresta domini Rogeri de Pyvylston ' mewn gweithred o'r flwyddyn ddilynol ynglyn ag arwerthiant tiroedd yn Gwillington (*Archæologia Cambrensis*, 1888, 32, 293). Ar 20 Mawrth 1293/4 penodwyd ef gan Edward I yn siryf cyntaf Môn (*Cal. Welsh Rolls*, 283), ac yn rhinwedd ei swydd ef oedd yn gyfrifol am gasglu'r dreth ar eiddo symudol y Cymry a esgorodd ar wrthryfel [Madog ap Llywelyn](#) yn Hydref 1294. Pan oedd yr helynt yn ei anterth cymerwyd Puleston gan wyr Môn a'i grogi ganddynt yn ystod ymosodiad disymwth ar fwrdeistref Caernarfon. Fe ddichon mai i'r un teulu y perthynai Richard de Puleston, siryf sir Gaernarfon 1284-95 (penodwyd ef yr un diwrnod â Syr Roger), er nad oes dim yn yr achau i ddweud pwy yn union ydoedd. Yr oedd ROBERT PULESTON, mab Richard Puleston, Emral (yn fyw 1382/3 - B.M. Harley MS. 1971) yn dyst ym mhrawf enwog Scrope-Grosvenor yn 1386, ef ac [Owain Glyn Dwr](#); priododd Robert Lowri, chwaer [Owain](#). Forffedwyd stadau Robert yn siroedd Caer, Amwythig a'r Fflint am iddo fod â rhan yng ngwrthryfel Glyn Dwr (*Cal. Pat. Rolls*, Henry IV, 1399-1401, 370), eithr fe'u hadferwyd yn ddiweddarach. Un o bleidwyr pybyr achos Lancaster ydoedd ROGER PULESTON (bu farw 1479 yn ôl N.L.W., Pen. 287, 165), wyr Robert a mab JOHN PULESTON (priododd Angharad, merch [Griffith Hanmer](#) ac wyres [Tudur ap Goronwy](#) o Fôn; profwyd ei ewyllys 17 Ebrill 1444): yn ystod ymgyrch 1460-1 dalai gastell Dinbych yn rhinwedd ei swydd o ddirprwy gwnstabl i'w gâr, [Jasper, iarll Penfro](#).

Dan y Tuduriaid bu i bedwar aelod o'r teulu ran amlwg yn ngweinyddiaeth Sir y Fflint. Yr oedd Syr ROGER PULESTON (bu farw 18 Ionawr 1544/5 yn ôl N.L.W. MS. 1504E). a fu'n ymladd yn Ffrainc yn 1513 (gweler *Cal. L. & P. Henry VIII*, i, 2, 1097), yn siryf 1540-1; ac yn yr un modd ei wyr, ROGER PULESTON (bu farw 14 Elisabeth I) a'i fab a'i wyr yntau, y ddau o'r un enw. Roger, y cyntaf yn 1567-8, yr ail yn 1573-4 a'r trydydd yn 1597-8. Ymaelododd y ROGER PULESTON olaf a enwyd (1566 - 1618) yng ngholeg Brasenose, Rhydychen yn 1582 pan oedd yn 16 oed (Foster, *Alumni*, 1219), ac aeth i Ysbyty'r Inner Temple yn 1585 (*Students admitted to the Inner Temple, 1547-1660*, 113); bu'n aelod seneddol dros sir y Fflint, 1588-9 a 1604-11 a thros sir Ddinbych, Chwefror-Ebrill 1593. Bu iddo ran amlwg yn yr ymrafael dros etholiad 1588 yn sir Ddinbych - un o'r rhai mwyaf helbulus yn hanes y sir honno - pan enillodd [John Edwards yr ieuengaf o'r Waun](#) (gweler [Edwards neu Edwardes, Y Waun, Sir Benfro a Kensington](#)) y sedd oddi ar [William Almer](#) (gweler [Almer neu Almor, Pant Iocyn](#)), Pant Iocyn. Haerodd [Almer](#) iddo dderbyn cam ar law'r siryf, Owen Brereton, ac mewn achos a ddug gerbron Llys y Seren cyhuddodd Brereton ac amryw o bleidwyr [Edwards](#), gan gynnwys Roger Puleston, o gam-ymddwyn yn yr etholiad. Priododd Puleston Susannah, merch Syr George Bromley, prif ustus Caer; urddwyd ef yn farchog 28 Awst 1617 a bu farw 17 Rhagfyr 1618. Aer Syr Roger oedd ei frawd, George Puleston, ac ar ei farw ef yn ddi-blant yn 1634 etifeddwyd stad Emral gan ei nai, [John Puleston \(c. 1583 - 1659\)](#); mab y Parch. Richard Puleston, Worthy Abbots, swydd Hants (*Reg. of Admissions to the Middle Temple*, i, 86), ustus Cwrt y Pledion Cyffredin, y rhoddir sylw iddo ar wahan. Dilynwyd ef gan ei fab hynaf, Roger, a Roger yn ei dro gan ei aer yntau, Syr ROGER PULESTON (1663 - 1697) a fu'n aelod seneddol dros sir y Fflint 1689-90 a thros fwrdeisdref y Fflint 1695-7, ac felly adfer cyswllt seneddol y teulu a dorwyd yn 1611.

Daeth llinach wrywaidd teulu Emral i ben yn 1732 pan fu farw THOMAS PULESTON, a adawodd y stad trwy ei ewyllys i JOHN PULESTON, Pickhill, disgynnydd o un o feibion y Roger Puleston a oesai adeg Harri VI. Ni bu aer i fab John, ac ar ei farw ef daeth Emral i feddiant gwr ei ferch, Richard Parry Price, Bryn-y-pys, a gymerodd yr enw Puleston ac a wnaed yn farwnig yn 1813. Syr THEOPHILUS PULESTON, a fu farw'n ddi-blant yn 1890, oedd y barwnig olaf o'r teulu. Diddorol, efallai, yw nodi i ran ('The Emral Hall') o hen blasdy Emral, pan ddymchwelodd ef yn 1936, gael ei ail-godi ym Mhorth Meirion, Meirionnydd.

(2) Cyn canol y 15fed ganrif yr oedd cangen o'r teulu wedi ymsefydlu ym Mers ger Wrecsam, ac erbyn diwedd y ganrif daethai Hafod-y-wern yn yr un ardal i feddiant y Pulestoniaid trwy briodas JOHN PULESTON, Plas-ym-Mers, wyr y Robert a Lowri a enwyd eisoes, ag Alswn, merch ac aeres Hywel ab Ieuan ap Gruffudd o Hafod-y-wern. Ymladdodd JOHN PULESTON (' HEN ') o Hafod-y-wern, mab hynaf y John Puleston hwn, ym mrwydr Bosworth, ac am ei wasanaeth ar yr achlysur hwnnw rhoes [Harri VII](#) flwydd-dâl iddo am ei oes o ugain morc allan o ddegymau arglwyddiaeth Dinbych (*6th Report Royal Commission on Historical MSS*, 421), a'i benodi, hefyd, yn 'gentleman usher' ystafell y brenin. Yn 1502 gwnaed ef yn ddirprwy i brif stiward arglwyddiaeth Bromfield a lâl (ibid.); saith mlynedd yn ddiweddarach, yn 1509, penodwyd ef gan Harri VIII yn rhyisyfwr tref Rhuthun ac arglwyddiaeth Dyffryn Clwyd (*Cal. L. & P. Henry VIII*, i, 1, 67), ac, yn 1519, arglwyddiaeth Dinbych (ibid., iii, 1, 146). Fel ei gâr, Syr Roger Puleston, gwasanaethodd yn yr ymgyrch yn Ffrainc yn 1513, a chydag ef ei ddau fab - y ddau o'r un enw, John - y naill o'i briodas gyntaf a'r llall o'r ail. Bu JOHN PULESTON, Hafod-y-wern (' John Puleston, Tir Môn ', fel y'i disgrifir weithiau - yr oedd ganddo beth tiroedd ym Môn), mab John Puleston ('Hen') o'i ail wraig, Alice, merch Hugh Lewis, Presaddfed, yn siryf sir Ddinbych 1543-4. Yn ystod blynyddoedd olaf Elisabeth I gwyswyd dau o'r Pulestoniaid hyn fel reciwsantiaid gerbron Sesiwn Fawr sir Ddinbych, sef EDWARD PULESTON, Hafod-y-wern yn 1585, 1588 a 1592 ac Anne, gwraig JOHN PULESTON, Bers, yn 1587. Frances, merch PHILIP PULESTON (bu farw 1776) oedd yr olaf o deulu Hafod-y-wern; priododd hi Bryan Cooke o Owston, swydd Efrog, yn 1786 (gweler [Davies-Cooke, Gwysaney](#)).

(3) Is-gangen o Bulestoniaid Hafod-y-wern oedd honno a ffynnai yng Nghaernarfon am ran o'r 16eg ganrif ac a sylfaenwyd

gan fab John Puleston ('Hen') o'i briodas gyntaf (ag Elin, merch Robert Whitney), sef Syr JOHN PULESTON (bu farw 1551) a fu'n siryf Sir Gaernarfon 1543-4, aelod seneddol tros Gaernarfon 1541-4 a sir Gaernarfon 1545-7 a 1547-51, siambrlen Gwynedd 1547 a chwnstabl castell Caernarfon 1523-51. Priododd (1) Gaynor, merch [Robert ap Meredydd ap Hwlcyn Llwyd, Glynllifon](#), a (2) Sioned, merch [Meredydd ab Ieuan ap Robert o Gesail Gyfarch a Gwydir](#). O HUGH PULESTON, ei fab o'r ail wraig, a briododd Margaret, merch ac aeres Hugh Lloyd o Lwynycnotiau ger Wrecsam, y disgynnodd Pulestoniaid y lle hwnnw. Ceir tystiolaeth fod y Parch. EDWARD PULESTON (bu farw 1621/2), yn gyfaill mynwesol i'r [capten John Salusbury o'r Rug](#) (gweler [Salusbury, Salesbury](#), Y Rug a Bachymbyd), un o'r prif gynllwynwyr yng ngwrthryfel Iarll Essex yn 1601; efô oedd ail fab Hugh Puleston, daeth yn rheithor Burton Latimer, swydd Northants, yn 1592, ac etifeddodd Lwynycnotiau ar farw ei frawd hyn yn ddi-blant. Gwasanaethodd RICHARD PULESTON, drachefn, brawd iau Edward, dan y [capten Salusbury](#) yn Iwerddon. Ar farw JOHN PULESTON, wyr Edward, yn ddi-blant ym mis Mawrth 1677/8, daeth Lwynycnotiau i feddiant brawd ei wraig, [Simon Thelwall o Blas-y-ward](#) (gweler [Thelwall](#), Plas-y-ward) trwy gytundeb cyfreithiol a wnaed yn 1672.

Awduron

Emyr Gwynne Jones, (1911 - 1972)

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 275

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandoverly 1846), ii, 150-1, 309-10, 359

Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales, ii, 454-5

Public Record Office, List of Sheriffs for England and Wales ... to A.D. 1831 (1898) (P.R.O.)

Archaeologia Cambrensis, 1888 (31-2, 285-96), 1889 (234), 1900 (287), 1949 (311)

History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog, ii, 138

W. R. Williams, [The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895](#) (Brecknock 1895), 72, 86, 88, 92

Burke's ... Peerage, Baronetage, and Knightage (arg. 1869 a 1913)

A. N. Palmer, *History of the town of Wrexham its houses, streets, fields, and old families. being the fourth part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (Wrecsam 1893), 137-42

A. N. Palmer, *History of the thirteen country townships of the old parish of Wrexham, and of the townships of Burras Riffri, Erlas, & Erddig Being the fifth and last part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (1903), 207-9

R. W. Eyton, *Antiquities of Shropshire* (1854-60), viii, 95-9

Howell T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge 1915), 116, 120, 123, 139, 140, 151, 153, 173

Edward Arthur Lewis, *The Mediaeval Boroughs of Snowdonia a study of the rise and development of the municipal element in the ancient principality of North Wales down to the Act of Union of 1536* (Llundain 1912), 225-6

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (1931), 24, 31, 34

A. H. Dodd yn *The English historical review*, 1944, 355-6

J. E. Neale yn *The English historical review*, 1931, 212-9

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1945, 115-6

Archifau LIGC: [NLW MS 1504E: Pedigrees, &c.](#)

Archifau LIGC: [Peniarth MS 287: Robert Vaughan's book of pedigrees](#), 165

ac awdurdodau eraill a enwyd uchod

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

